# SL(6)627 – Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) (Diwygio) 2025

## Cefndir a diben

Daeth Rheoliadau Diogelu’r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024 i rym ar 1 Mehefin 2025 ac maent yn gwahardd cyflenwi fêps untro yng Nghymru. Eu nod yw mynd i’r afael â'r niewd amgylcheddol a achosir drwy waredu fêps untro mewn modd amhriodol (“Rheoliadau 2024”).

Mae rheoliad 10 o Reoliadau 2024 yn cynnwys pŵer i swyddogion gorfodi, a benodir gan awdurdod lleol, ymafael mewn fêps untro sy’n torri’r rheoliadau ac yna eu cadw at ddibenion penodol rhestredig, megis profi’r fêp neu iddo fod ar gael fel tystiolaeth. Mae rheoliad 12 o Reoliadau 2024 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo bod unrhyw fêps untro yr ymafaelir ynddynt gan swyddogion gorfodi yn cael eu gwaredu fel gwastraff.

Drwy gamgymeriad, nid yw pŵer y swyddogion gorfodi i gadw fêps untro yr ymafaelir ynddynt a nodir yn rheoliad 10 yn ymestyn i’w cadw er mwyn eu gwaredu fel gwastraff, yn unol â chyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru. Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 10 o Reoliadau 2024 i estyn cyrhaeddiad y pŵer i ganiatáu eu cadw at y diben hwnnw.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu’r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i’r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan bwerau yn adran 140(1) o Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd 1990. Mae’r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ac yna rheoleiddio meddiant, defnyddio neu storio sylwedd neu eitem *os* yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol er mwyn atal y sylwedd neu’r eitem honno rhag achosi naill ai llygredd amgylcheddol neu niwed i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion.

Felly, mae arfer pŵer adran 140(1) ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn dod i'r farn honno. Mae geiriau rhagarweiniol y Rheoliadau a nodir isod yn cyfeirio at yr amod hwn:

> *"Mae Gweinidogion Cymru-*
>
> *(a) yn ystyried ei bod yn briodol gwneud y Rheoliadau hyn at ddiben atal yr eitemau a bennir ynddynt rhag achosi llygredd amgylcheddol a niwed i iechyd anifeiliaid;"*

Bwriad y geiriau hyn yw cadarnhau bod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni mewn perthynas â'r amod yn adran 140(1). Mae'r geiriad yn cyfeirio at "*eitemau a bennir*" yn y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ni phennir eitemau yn y Rheoliadau hyn. Pennir yr eitemau rheoleiddiedig, sef fêps untro, yn Rheoliadau 2024.

Yn ein barn ni, er mwyn bodloni adran 140(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, dylai geiriau rhagarweiniol y Rheoliadau hyn gyfeirio at "*eitemau a bennir yn rheoliad 3 a 4 o Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024*".

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud ar 17 Mehefin 2025, a'u gosod ar 18 Mehefin 2025 ac maent yn dod i rym ar 19 Mehefin 2025. Mae adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys os na osodir OS penderfyniad negyddol o leiaf 21 diwrnod calendr cyn iddo ddod i rym. Mae'n darparu bod rhaid i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Llywydd ac esbonio na chadwyd at y gofyniad 21 diwrnod.

Ysgrifennodd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, at y Llywydd ar 18 Mehefin 2025 a datganodd y canlynol:

> *"Daeth Rheoliadau 2024 i rym ar 1 Mehefin 2025. Felly, bydd peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn sicrhau bod Rheoliadau 2024 yn cael eu cywiro cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan sicrhau bod y gwaharddiad a grëwyd gan Reoliadau 2024 yn cael ei effaith lawn cyn gynted â phosibl."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Gorffennaf 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.